

# Environmental Grazing Case Study

**Siarl Owen**

**Tynddraenen, Swyddffynnon, Ceredigion**



**Tynddraenen is a family run beef and sheep farm near Cors Caron. Parts of the hill (the cairns) have SSSI status.**

- 344 ha at four sites
- 200 ha enclosed hill
- Land rises from 750ft to 1800ft
- 1400 Welsh Mountain ewes cut back from 2100
- 70 Welsh Black cows

**Tynddraenen entered the Tir Gofal agri-environment scheme in 2006 where payments could be obtained to maintain and improve the enclosed hill and 10 ha of semi natural rough grazing on the farm. They also provide cattle for tack during summer months to help other people meet their Tir Gofal prescriptions.**

The specific grazing prescriptions on the 200 ha hill allow 1064 sheep to graze it from the April to October. Most ewes are moved during October, leaving 355 there over the winter. The cattle do not graze this hill because it is too wet and there is a concern for their welfare. Tynddraenen have reduced the number of sheep since joining the Tir Gofal scheme; 350 ewes are crossed with an Innovis Genetics Sireline ram as part of a contract system to breed replacement ewe lambs for lowland farms. To improve carcass conformation, 220 sheep are crossed with Charolais rams. Lambing starts in March and all are lambed outdoors. Replacement ewe lambs and 100 ewes are away wintered near Lampeter. All the remaining lambs are finished and sold direct to abattoir by the beginning of November.

Shale feeding pads on the mountain reduce the damage to the vegetation and there are tracks around the farm to reduce soil erosion. Sheep are fed silage and feed blocks from December to lambing. Twin bearing ewes are moved to improved ground after scanning and single bearing ewes move down in the first week of March. All the sheep are fed sugar beet roots for 3 weeks before lambing.

The beef enterprise consists of 70 spring calving Welsh Black cows. Heifers calve early in February and the majority of the herd calve by June. Cattle are housed from mid November to the middle of May depending on weather. They are fed silage outside for 3-6 weeks before housing and receive high zinc minerals during housing. They have a copper and selenium injection in February and are all treated for fluke. In the spring they have a liquid feed with high magnesium. Before housing, the calves are vaccinated against pneumonia and the hair is trimmed off their backs

and tails. Calves are fed oats and a beef blend during housing with the majority of calves being weaned in December at average 280kg liveweight.

Heifer calves are sold at 16-24 months for breeding or they are kept and sold as boxed meat. They average about 300 kg dead weight when slaughtered. Tynddraenen have been selling boxed meat for nearly 10 years to customers who prefer Welsh Black Beef produced on home grown fodder. The meat is vacuum packed, hand delivered and they have around 12 customers per animal. Steers are sold to a local butcher for finishing.

Forty three of the Welsh Black cattle graze land on other farms during the summer months. This has obvious mutual benefits; the other farmers receive their Tir Gofal payments and use the cattle to graze rough and semi improved areas providing more manageable swards that their sheep can then graze while Siarl receives free grazing.

The family also have 12 stables to rent as DIY livery and are currently converting a disused building to stables so they can develop this business and offer full livery service in the near future.

## **Environmental and Financial Benefits**

Siarl feels that the high labour input, fertilizer and fuel costs on the farm must be reduced to make the enterprise financially viable. Tir Gofal has helped this since reducing the number of sheep has also reduced fertilizer, fuel and labour requirements.

**Siarl says “The Tir Gofal scheme has enabled me to maintain and enhance hedgerows on the farm and improve field boundaries. The sheep are now doing better on the hill and there is now more grass there”.**

# Astudiaeth Achos Pori Amgylcheddol

## Siarl Owen

### Tynddraenen, Swyddffynnon, Ceredigion



**Ymunodd Tynddraenen â'r cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal yn 2006 pan oedd arian ar gael i gynnal a chadw a gwella'r mynydd wedi'i gau a 10 ha o bori garw lled naturiol ar y fferm. Hefyd, mae'r fferm yn darparu gwartheg ar gyfer tac yn ystod misoedd yr haf er mwyn helpu pobl eraill i ddiwallu eu rhagofynion Tir Gofal.**

Mae'r rhagofynion pori penodol ar gyfer 200 ha y mynydd yn caniatáu i 1064 o ddefaid ei bori o fis Ebrill tan fis Hydref. Caiff y rhan fwyaf o'r mamogaid eu symud ym mis Hydref, gan adael 355 yno dros y gaeaf. Nod yw'r gwartheg yn pori'r mynydd hwn am ei fod yn rhy wlyb ac am fod pryder ynghyn â'u lles. Mae Tynddraenen wedi lleihau nifer y defaid ers ymuno â chynllun Tir Gofal; mae 350 o famogaid yn cael hwrdd Sireline Innovis Genetics fel rhan o system gontract i fridio ŵyn benyw amnewid ar gyfer ffermydd tir isel. Er mwyn gwella cydffurfiad y carcasai, mae 220 o ddefaid yn cael hyrddod Charollais. Mae wyna'n dechrau ym mis Mawrth – y cyfan allan yn yr awyr agored. Mae ŵyn benyw amnewid a chant o famogaid yn treulio'r gaeaf ger Llanbedr Pont Steffan. Caiff pob un o'r ŵyn eraill eu pesgi a'u gwerthu'n syth i'r lladd-dy erbyn dechrau mis Tachwedd.

Mae padiau bwydo carreg glai ar y mynydd yn lleihau'r difrod i'r llystyfiant ac mae yna lwybrau o amgylch y fferm fel nad yw'r pridd yn erydu cymaint. Mae'r defaid yn cael eu bwydo ar silwair a blociau bwyd o fis Rhagfyr tan amser wyna. Caiff y mamogaid sy'n cario gefeiliaid eu symud i dir wedi'i wella ar ôl sganio a chaiff mamogaid sy'n cario un oen eu symud i lawr yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth. Bydd yr holl ddefaid yn cael gwreiddiau betys siwgr dair wythnos cyn wyna.

Mae'r fenter gig eidion yn cynnwys 70 o fuchod Duon Cymreig sy'n lloia yn y gwanwyn. Mae'r heffrod yn lloia ddechrau Chwefror a'r rhan fwyaf o'r fuches erbyn Mehefin. Rhoddir y gwartheg dan do o ganol Tachwedd tan ganol Mai, gan ddibynnu ar y tywydd. Cânt silwair yn yr awyr agored am 3-6 wythnos cyn eu rhoi dan do ac wedyn cânt fwynau â chyfran uchel o sinc. Rhoddir pigiad copr a seleniwm ym mis Chwefror a bydd pob un yn cael triniaeth

**Mae Tynddraenen yn fferm deuluol ger Cors Caron sy'n cadw gwartheg cig eidion a defaid. Mae i rannau o'r mynydd (y carneddi) statws SoDdGA.**

- 344 ha mewn pedwar lleoliad
- 200 ha o fynydd wedi'i gau
- Y tir yn codi o 750 i 1800 troedfedd
- 1400 o ddefaid Mynydd Cymreig (2100 yn flaenorol)
- 70 o fuchod Duon Cymreig

rhag llyngyr yr iau. Yn y gwanwyn cânt borthiant hylifol yn cynnwys cyfran uchel o fagnesiw. Cyn mynd dan do, mae'r lloi'n cael eu brechu rhag niwmonia a chaiff eu blew ei dacluso ar eu cefnau a'u cynffonnau. Rhoddir ceirch a chymysgwyd arbennig ar gyfer lloi cig eidion pan fo'r lloi dan do, a bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu diddyfnu ym mis Rhagfyr pan fyddant yn 280kg pwysau byw.

Caiff y lloi benyw eu gwerthu yn 16-24 mis oed ar gyfer bridio neu cânt eu cadw ar gyfer cig bocs. Ar gyfartaledd, maent yn pwysu tua 300kg pwysau marw ar ôl cael eu lladd. Mae Tynddraenen wedi bod yn gwerthu cig bocs am ymron i 10 mlynedd i gwsmeriaid sy'n well ganddynt Gig Eidion Du Cymreig o anifeiliaid a fagwyd ar borfwyd y fferm. Caiff y cig ei bacio dan wactod a'i ddsbarthu'n bersonol, ac mae yna oddeutu 12 cwsmer ar gyfer pob anifail. Gwerthir y bustych i gigydd lleol i'w pesgi.

Mae 43 o'r gwartheg Duon Cymreig yn pori ar ffermydd eraill yn ystod misoedd yr haf, sydd o fantais i bawb. Mae'r ffermwyr eraill yn derbyn eu taliadau Tir Gofal ac yn defnyddio'r gwartheg i bori tir garw a thir wedi'i led wella ac o'r herwydd yn darparu tir glas sy'n addas ar gyfer eu defaid – ac mae Siarl yn cael pori am ddim.

Hefyd, mae'r teulu'n gosod deuddeg o stablau lle mae pobl yn cadw ceffylau ar eu gogor eu hunain ac ar hyn o bryd mae adeilad segur yn cael ei droi'n stablau fel y bydd modd datblygu'r busnes hwn a chynnig gwasanaeth gogor llawn yn y dyfodol agos.

#### Manteision Amgylcheddol ac Ariannol

Mae Siarl yn teimlo fod rhaid cwtogi ar waith y fferm a lleihau'r costau gwrtaith a thanwydd er mwyn gwneud y fenter yn ariannol hyfyw. Bu Tir Gofal o gymorth i'r cyfeiriad hwn oherwydd mae cadw llai o ddefaid wedi golygu defnyddio llai o wrtaith a thanwydd yn ogystal â llai o waith.

**Meddai Siarl "Mae'r cynllun Tir Gofal wedi golygu 'mod i'n gallu cynnal a chadw a gwella gwrychoedd ar y fferm a gwella terfynau'r caeau. Bellach mae'r defaid yn ffynnu'n well ar y mynydd ac mae yna fwy o laswellt yno".**